

Paratowyd Ar Gyfer:

Paratowyd Gan:
HLN Limited

0345 375 3298
mail@hlngroup.co.uk
www.hlngroup.co.uk

Cyfeirnod y Ddogfen: 106023-HLN-XX-XX-SP-A-0001

Cod Addasrwydd: S4

Adolygiad: P02

Dyddiad: 18/02/2026

Adolygiad	Addasrwydd	Dyddiad Cyhoeddi	Pwrpas Cyhoeddi	Paratowyd	Gwiriwyd
P01	S3	17/02/2026	Ar gyfer adolygiad a sylwadau	ZW	CP
P02	S4	18/02/2026	Cyhoeddwyd ar gyfer Tendr	ZW	CP

Manyleb Chwaraeon Cymru – Ystafell Offer Switch

Cwmpas

Adnewyddu llawn ar ardal leol yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru. Mae'r meysydd gwaith yn cynnwys y canlynol:

- G54 Ystafell Offer Switch o fewn yr Ystafell Beiriannau

Gwaith Stripio

Mae'n rhaid tynnu'r holl orffeniadau mewnol presennol. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- Y set o ddrysau
- Byrddau MDF y nenfwd
- Gorffeniadau wal¹
- Gwifrau trydanol²
- Gosodiadau a ffitiadau²
- Goleuadau²
- Pibellau (os yw hynny'n berthnasol)²
- Clirio malurion a llwch presennol.

¹Yn amodol ar gyflwr y wal ar ôl tynnu'r elfennau MEP.

²Edrychwch ar y pecyn MEP ar gyfer tynnu, cadw, ailddefnyddio elfennau MEP presennol (e.e. ceblau).

Gwaith Dymchwel

Mae dymchwel y nenfwd / cap presennol wedi'i farcio mewn coch ar y darluniau. Edrychwch ar y darluniau dymchwel ar gyfer lleoliad y gwaith.

Bydd y gwaith dymchwel yn lleol i dop yr ystafell (byrddau MDF a thrawstiau nenfwd) a lledaenu'r drws presennol, os oes angen.

Tynnu'r set o ddrysau presennol yn llwyr, gan gynnwys y ffenestr lintel rwyll bresennol, y ffrâm bren a'r pendrawst.

Gorffeniadau Mewnol Newydd

Rhaniadau Wal

Leinin Wal 1 – Gradd Tân 60 Munud

- Cyfeirnod y cynnyrch: Siniat IS50R(400)-312F#0
- Bwrdd: 3 Bwrdd Tân Siniat 12.5mm
- Strwythur: Siniat I-Stud IS50/0.5mm (RX)
- Ategolion cynnyrch – edrychwch ar fanyleb y gwneuthurwr.
- Nodyn: Enghraifft yw'r cynnyrch a ddangosir, caniateir cynnyrch cyfatebol – Contractwr i ddarparu i fanyleb perfformiad cynnyrch cyfatebol fel sy'n ofynnol yn y fanyleb Bensaernïol.

Mewnlenni'r Waliau

- Mewnlenni waliau i gyd-fynd â'r adeiladwaith wal presennol
- Blocwaith i gael ei selio'n ddigonol i ffurfio aerglosrwydd.

Gorffeniad y Waliau

Paent

- Dulux Trade Diamond Matt – Brilliant White neu gyfatebol o ran perfformiad cynnyrch.
- Waliau i gael eu hailbaentio a bydd angen sawl côd ychwanegol ar y waliau i'r blocwaith a'r byrddau i osgoi gorffeniad clytwaith.

Gorffeniad y Llawr

Sgrid Concrit

- Sgrid concrit presennol agored
- Y cyflwr i gael ei asesu ar ôl tynnu'r offer MEP presennol i benderfynu a oes angen lefelu'r llawr ar gyfer arwyneb gwastad.
 - o Lle mae craciau arwyneb neu gyflwr gwael yn weladwy, tîm y Contractwr i adrodd am y cyflwr i dîm y Cleient i'w adolygu.
- Gorchudd selio gwrth-lwch i gael ei roi.

Amgaead Uchaf yr Ystafell

Adeiladwaith Amgaead Ystafell*

- Nenfwd newydd i gael ei osod i 2300mm o lefel y llawr gorffenedig.
- Nenfwd - Wyneb Mewnol
 - Gorffeniad Wedi'i Baentio
 - 2 Fwrdd Tân Siniat 15mm (neu berfformiad cyfatebol)
 - Pren Haenog Strwythurol 18mm
- Nenfwd – Strwythurol
 - Trawstiau Nenfwd Pren Wedi'u Trin – 175x45mm @ canol 400mm – Edrychwch ar y darluniau am yr hyd a'r maint gofynnol.
 - Plociau pren i ben y trawstiau lle mae'r pennau wedi'u gosod ar ben wal blocwaith. Edrychwch ar y darluniau ar y lleoliadau.
 - 1 trawst Nenfwd Pren Wedi'i Drin 130x45mm – Edrychwch ar y darluniau am yr hyd a'r lleoliad gofynnol.
- Nenfwd – Wyneb Allanol
 - Pren Haenog Strwythurol 18mm
 - 2 Fwrdd Tân Siniat 15mm (neu berfformiad cyfatebol)
- Gosodiadau ac Ategolion
 - Edrychwch ar fanyleb y gwneuthurwr-cyflenwr ar gyfer uno a gosodiadau – i fodloni gofynion y fanyleb tân yn unol ag argymhelliad y Peiriannydd / Ymgynghorydd Tân.
 - Gosodiadau trawstiau, edrychwch ar yr adran 'Ategolion'.

*Dadansoddiad strwythurol i gael ei ddarparu gan dîm y Contractwr i sicrhau gwyrriad

Drysau

Drws Pren Solet Gradd Tân (Gorffeniad drws i'w gadarnhau)

- Drws mwg gradd tân 60 munud ardystiedig – Ardystiad i gael ei ddarparu.
- Drws i agor allan i'r ystafell beiriannau
- Platiau cicio i ddwy ochr y drws
- Handlenni drysau i ddwy ochr y drws
- Clo troi silindr – gradd tân i isafswm o 60 munud
- Pendrawst newydd – pren meddal sy'n addas ar gyfer preimio a phaentio.
 - Gorffeniadau uniad priodol i gyd-fynd â lliw y growt
 - Seliwr chwyddedig i ffrâm y drws a'r pendrawst. Cynnyrch priodol i gyd-fynd â manyleb y gwneuthurwr-cyflenwr a chaniatáu ar gyfer gwrthyrru baw.
- Caewr drws i ystafell yr offer switsh
- Gorffeniad drws
 - Gorffeniad argaen pren. Gorffeniad i'w gadarnhau gyda thîm y Cleient.

Neu

- Drws craidd solet gyda wyneb haenog, wedi'i breimio ar gyfer gorffeniad paent. Gorffeniad i'w gadarnhau gyda thîm y Cleient.
- Drws i fod yn solet heb wydr, yn addas ar gyfer defnydd mewnol yn unig.
- Drws Tân – Arwyddion Cadwch Ar Gau ar ddwy ochr y drws
- Stopiau Drysau – I'w cadarnhau gyda thîm y Cleient.

Gwaith Coed Pwrpasol

- Panel Bwrdd Tân Mewnlenwi uwchben y drws newydd hyd at waelod y nenfwd.
- Seliwr chwyddedig rhwng Bwrdd Tân Siniat i'r blocwaith a / neu'r fframiau pren.

Ategolion

Cynhyrchion Atal Tân

- Datrysiadau Quellfire neu gyfatebol. Dewis y contractwr, i fodloni gofynion perfformiad tân yn unol ag argymhelliad y peiriannydd / ymgynghorydd tân.

Gosodiadau Goleuo

- Edrychwch ar fanyleb y MEP – nodwch y gosodiadau gradd tân priodol i'w nodi i sicrhau bod y radd tân i'r nenfwd yn cael ei chadw. Dylai'r contractwr ymgynghori â'r peiriannydd / ymgynghorydd tân am argymhellion.

Gosodiadau Wal

- Gosodiadau trawstiau, e.e. crogfachau trawstiau – Dewis y contractwr i fodloni gofynion gradd tân 60 munud.
- Edrychwch ar fanyleb y MEP – nodwch y gosodiadau gradd tân priodol i'w nodi i sicrhau nad oes perygl i'r blocwaith yn strwythurol ac o ran y fanyleb tân. Dylai'r contractwr ymgynghori â'r peiriannydd / ymgynghorydd tân am argymhellion.

Nodiadau'r Pensaer

- Os yw'r Contractwr wedi dewis cynnyrch amgen yn lle'r cynhyrchion a amlinellir yn y fanyleb Bensaernïol, dylai'r Contractwr ddarparu manyleb perfformiad y cynnyrch amgen i dîm y Cleient i'w hadolygu a rhoi sylwadau arni cyn y gwaith caffael a'r gwaith adeiladu.
- Amrywiadau i gynhyrchion sy'n cyfateb i'r newid mewn dimensiynau i'w codi gyda thîm y Cleient i sicrhau bod goddefiant adeiladu'n cael ei fodloni.
- Mae HLN Limited yn argymhell penodi Peiriannydd / Ymgynghorydd Tân ardystiedig i ddarparu arbenigedd i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau tân.